Disgyn, Iôr, a rhwyga'r nefoedd

Caneuon Ffydd: Rhif 583

Disgyn, Iôr, a rhwyga'r nefoedd,
tywallt Ysbryd gras i lawr;
disgyn fel y toddo'r bryniau,
diosg fraich dy allu mawr;
rhwyga'r llenni, ymddisgleiria
ar dy drugareddfa lân;
rho dy lais a'th wenau tirion,
achub bentewynion tân.

Ti achubaist y rhai gwaethaf,
annheilyngaf a fu'n bod;
achub eto, achub yma,
achub finnau er dy glod.
Ti gei'r mawl pan danio'r ddaear
a phan syrthio sêr y nen:
ti gei'r enw yn dragwyddol,
ti gei'r goron ar dy ben.

WILLIAM GRIFFITHS, 1801–81

MYFYRDOD

Gwelwyd cyhoeddi pennill cyntaf emyn y Parch. William Griffiths, Caergybi, yng nghasgliad Samuel Roberts, Llanbrynmair, ym 1840, a daeth ail bennill ymhen blwyddyn neu ddwy. Dyma oes pan oedd yr Efengyl yn cael ei sefydlu yn ein gwlad, a chanrif wedi mynd heibio ers y Diwygiad Mawr yn y ddeunawfed ganrif. A chafwyd sawl diwygiad yng Nghymru ers hynny. Fe gofiwch i Gymru ddod i gael ei hadnabod fel 'gwlad y diwygiadau', a pharhaodd y tywalltiadau nerthol hynny o'r Ysbryd Glân hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif gyda Diwygiad 1904–5. Aeth can mlynedd eto heibio ers gweld yr hyn yr erfynia William Griffiths amdano yn ei emyn: 'Disgyn Iôr, a rhwyga'r nefoedd, tywallt Ysbryd gras i lawr.

Fe sonnir am fraich yr Arglwydd – 'braich dy allu mawr' yn cael ei diosg a'i dangos yn eglur inni. Mae'r ymadrodd 'braich yr Arglwydd' yn y Beibl yn sôn am ffafr Duw tuag at ei bobl, bod ei fraich wedi ei hestyn tuag atyn nhw ac yn alluog i weithredu. Sonnir yn Eseia 59, 'Nid aeth llaw'r Arglwydd yn rhy fyr i achub' (adn. 1), ac er gwaetha'n diffrwythdra crefyddol a'n camweddau, fe gymerwn ein calonogi gan yr addewid yn adnod 16, 'daeth ei fraich ei hun â buddugoliaeth iddo, a chynhaliodd ei gyfiawnder ef'.

Mae Duw yn aros yr un o hyd a'i law heb fod yn rhy fyr i achub, er y cyfansoddwyd yr emyn hwn mewn oes pan oedd mwy o sêl dros weld eneidiau'n cael eu hachub, a phobl yn troi at Grist ac yn cael eu gwneud yn 'greadigaeth newydd' ynddo ef. Sylwch fel y mae'r cyfan yn yr emyn yn troi o gwmpas gallu Duw i achub: 'achub bentewynion tân', 'Ti achubaist y rhai gwaethaf', 'achub eto, achub yma, achub finnau er dy glod'. Aeth y sôn am 'achub' yn brin heddiw wrth inni gael ein boddi gan feddylfryd yr oes fod pawb yn iawn yn y pen draw ac nad oes angen sôn am newid pobl, nad oes neb, mewn gwirionedd, yn ddrwg i gyd – onid oes rhyw ddaioni ym mhawb? Yn sicr, y mae, a diolchwn i Dduw am hynny. Ond er mwyn cyflawni ein potensial fel bodau dynol, a gwneud y daioni mwyaf i ni ein hunain ac i eraill o'n cwmpas y mae'n rhaid inni ddod yn ôl ar lun a delw Duw a chael ein 'geni drachefn', fel y dywedodd Iesu wrth Nicodemus a ddaeth i'w weld liw nos (Ioan 3). 'Oherwydd nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef' (Ioan 3:17).

Dyna gynllun Duw ar gyfer ei fyd; ei achub trwy i bobl gredu a derbyn ei Fab yn Arglwydd ar eu bywydau. Ac mae cymaint, os nad mwy o angen hynny heddiw nag erioed. Gweddïwn y bydd Duw yn 'tywallt Ysbryd gras i lawr' eto yn ein cyfnod ni.

GWEDDI

O Dad cariadus, a anfonodd dy Fab i'r byd er mwyn i ddynion a merched gael eu hachub, gad inni ddeall a gweld bod yr angen yn dal yr un heddiw. Anfon dy Ysbryd eto, Arglwydd, 'diosg fraich dy allu mawr', a chaniatâ inni weld nad yw dy fraich wedi ei byrhau nac yn rhy wan i 'achub bentewynion tân' unwaith eto. Yn enw dy Fab Iesu Grist. Amen.